
# Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd - Mehefin 2013

## Y ffordd ymlaen a gynigir yn dilyn Ymgynghoriad ar y Cynlluniau

**O dan y Rheoliadau Perygl Llifogydd (y Rheoliadau), rhaid i rai Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (ALlLlAau), Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd gyhoeddi Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd erbyn mis Rhagfyr 2015 yng Nghymru a Lloegr. Buom yn ymgynhori ynglŷn â'r dull o gynhyrchu'r cynlluniau hyn, ac rydym bellach yn cynnig ffordd ymlaen a ffefrir ar ôl ystyried yr ymatebion a gafwyd.**

## Cyflwyniad




Gweithreda'r Rheoliadau ofynion y Gyfarwyddeb Llifogydd Ewropeaidd, sydd â'r nod o ddarparu dull cyson o reoli perygl llifogydd ledled Ewrop. Ar hyn o bryd rydym yn y cylch gweithredu cyntaf, lle mae angen i ALlLlAau (cynghorau sir ac awdurdodau un-haen) baratoi mapiau perygl a bygythiad llifogydd a Chynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLl) ar gyfer 10 Ardal Perygl Llifogydd yn Lloegr[1] ac 8 yng Nghymru (gweler y map gyferbyn). Mae angen i Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru baratoi mapiau perygl a bygythiad a CRhPLlau ar gyfer prif afonydd, y môr a chronfeydd ar gyfer Cymru a Lloegr i gyd.

## Pam wnaethom ni ymgynghori ynglŷn â'r dull o ymdrin â Chynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd?

Mae CRhPLlau yn bwysig gan eu bod yn egluro sut y gall awdurdodau rheoli a chymunedau gydweithio i leihau canlyniadau andwyol posibl llifogydd. Roedd Defra, Llywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r corff newydd, Cyfoeth Naturiol Cymru (sy'n cyflawni swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru ers 1 Ebrill 2013) am godi ymwybyddiaeth o'r gofynion cynllunio, a chael barn ar y dulliau posibl o gyflawni CRhPLlau ar gyfer y cylch cyntaf hwn a chylchoedd y dyfodol.

## Beth oedd yr ymateb i'r ymgynghoriad?

Daeth yr ymgynghoriad i ben ddiwedd Hydref 2012, a chafwyd dros 80 ymateb gan gyrff cenedlaethol, awdurdodau rheoli perygl, cwmnïau preifat ac unigolion.

*"…daeth bron i 70% o'r ymatebion gan awdurdodau rheoli perygl, gyda thros hanner yn ymatebion gan Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol.*

*Ymatebodd bron i chwarter yr holl ALlLlAau i'r ymgynghoriad…"*

Gellir gweld yr ymatebion ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd:

https://consult.environment-agency.gov.uk/portal/ho/flood/plans/approach

## Beth yw'r dull a ffefrir ar gyfer datblygu CRhPLl?

Ar ôl adolygu'r adborth a dderbyniwyd, y dull a ffefrir ar gyfer datblygu CRhPLl yn y cylch cynllunio hwn yw i Asiantaeth yr Amgylchedd (AA) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC):

> *"...baratoi CRhPLl cyfunol mewn partneriaeth ag eraill fel eu bod yn cwmpasu llifogydd o brif afonydd, y môr a chronfeydd, yn ogystal ag o lifogydd dŵr wyneb….i gyd mewn un lle"*

Bydd AA a CNC yn gweithio mewn partneriaeth ag ALlLlAau ac awdurdodau rheoli perygl eraill i ddatblygu'r cynlluniau cyfunol ar sail dalgylch drwy grynhoi gwybodaeth o wahanol gynlluniau (Cynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd, Cynlluniau Rheoli Traethlin a Chynlluniau Cronfeydd ar gyfer llifogydd o brif afonydd, y môr a chronfeydd). Bydd AA a CNC am i ALlLlAau grynhoi gwybodaeth o Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol (neu Gynlluniau Rheoli Dŵr Wyneb) fel ei fod o leiaf yn cynnwys yr Ardaloedd Perygl Llifogydd a nodwyd yn yr Asesiad Cychwynnol o'r Bygythiad Llifogydd. Bydd y wybodaeth hon am reoli perygl llifogydd lleol yn cael ei gosod yng nghyd-destun y cynllun dalgylch ehangach.

## Beth am y tu allan i Ardaloedd Perygl Llifogydd?

Er bod cylch cynllunio cyntaf rheoli perygl llifogydd lleol yn canolbwyntio ar Ardaloedd Perygl Llifogydd, mae croeso i ALlLlAau grynhoi gwybodaeth am ardaloedd sydd y tu allan i'r ardaloedd hyn pe dymunent wneud hynny. Mae hyn yn golygu bod modd crynhoi gwybodaeth am ardal gyfan y ALlLlA yn y CRhPLl cyfunol. Drwy wneud hyn gallwn greu a rhannu darlun o berygl llifogydd ar draws pob ffynhonnell.

## Sut y byddai ymgynghoriad ar y CRhPLl drafft yn gweithio?

Mae angen ystyried mwy gyda phartneriaid ALlLlA ond y ffordd ymlaen a awgrymir ar hyn o bryd yw i AA a CNC gydgysylltu'r ymgynghoriad ar y CRhPLl cyfunol drafft ar sail dalgylchoedd. Rydym yn gweld y byddai'n fuddiol iawn cynnal yr ymgynghoriad hwn yr un pryd â'r ymgynghoriad ar y cynlluniau rheoli basn afon drafft a baratoir o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o fis Mehefin 2014 ymlaen a dylem geisio gwneud hynny. Rydym yn croesawu'r bwriad i gynnal yr ymgynghoriad ar CRhPLl cyfunol drafft mewn partneriaeth â'r ALlLlAau lle bo'n bosibl; credwn y bydd hyn yn gwella ymgysylltu ar lefel leol ac annog pobl leol deimlo'n gyfrifol am y cynlluniau. Nid ydym yn cynnig oedi'r gwaith o ddatblygu Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd lleol. Lle bo'n ymarferol, gall ALlLlAau ystyried cynnwys opsiynau ar gyfer gweithredu eu strategaeth leol yn yr ymgynghoriad ar y CRhPLlau drafft, yn enwedig pan fo cyfleoedd i gydweithio ar draws y dalgylch ehangach i gyflwyno camau cydunol fel mesurau rheoli tir. Mae Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a Chynlluniau Rheoli Basn Afonydd yn brosesau sydd â'r nod o ganolbwyntio gwaith partneriaeth i sicrhau manteision amgylcheddol a chymdeithasol. Byddwn yn chwilio am ffyrdd syml o gynllunio gyda'n gilydd, i sicrhau mwy o ganlyniadau ac arbed arian ac amser.

## Beth am gylchoedd cynllunio'r dyfodol?

Ar gyfer cylchoedd cynllunio'r dyfodol, mae Defra a Llywodraeth Cymru yn cefnogi ymestyn cwmpas CRhPLlau fel eu bod yn cynnwys Cymru a Lloegr i gyd ar gyfer pob ffynhonnell o berygl llifogydd, ac yn cael eu paratoi mewn partneriaeth gan bob awdurdod rheoli peryglon. Yn sgil ein profiad o'r cylch cynllunio cyntaf hwn, rydym am sicrhau mwy o gysondeb rhwng cynlluniau rheoli perygl llifogydd a chynlluniau rheoli basn afon o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn y dyfodol. Gellir ystyried sut i gydgysylltu'r gwaith cynllunio hwn yn effeithiol o dan y Dull seiliedig ar Ddalgylch sy'n datblygu: <http://www.defra.gov.uk/environment/quality/water/legislation/catchment-approach/>

## Beth nesaf a ble alla i gael rhagor o wybodaeth?

Rydym yn gwerthfawrogi'r sylwadau a rannwyd gyda ni gydol yr ymgynghoriad hwn a byddwn yn ceisio rhannu'r cynnig drafft yn eang fel bo eraill, yn enwedig ALlLlAau ac Awdurdodau Rheoli

Peryglon eraill, yn gallu ystyried ei rinweddau yn fanylach (gweler yr Adroddiad Cryno ar wefan AA: https://consult.environment-agency.gov.uk/portal/ho/flood/plans/approach).

Rydym yn croesawu adborth pellach gan awdurdodau rheoli peryglon, yn enwedig y rhai sydd heb ymateb o'r blaen (e-bostiwch AA yn: FRMPConsultation@environment-agency.gov.uk ). Dros y misoedd nesaf byddwn yn paratoi canllawiau pellach ar y dull a ffefrir ar gyfer datblygu CRhPLlau.

***Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd o dan y Rheoliadau Perygl Llifogydd***